# BWRDD DIOGELU PLANT
# GOGLEDD CYMRU

## Protocol Gogledd Cymru ar gyfer Rheoli:

## Cwynion sy'n Ymwneud â Chynadleddau Amddiffyn Plant

***Dyddiad cadarnhau:*** ***31 Gorffennaf 2014***
***Dyddiad Adolygu:*** ***2017***

| | **Disgrifiad o'r rheswm dros newid** | **Awdur** | **Awdurdodiad** | **Dyddiad cyhoeddi** |
|---|---|---|---|---|
| **1.** | | Gabrielle Heeney | BDPGC | 31 Gorffennaf 2014 |
| **2.** | Adolygu - 2017 | Grŵp P&P Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru | | |

**Cyflwyniad**

*Mae'r Weithdrefn Gwyno hon yn adeiladu ar Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, Adran 5.2, 'Delio â Chwynion gan Deuluoedd am Swyddogaeth Cynhadledd Amddiffyn Plant' a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r protocol hwnnw.*

Diogelu Plant: Cydweithio o dan y Ddeddf Plant 2004 Adran 4.49 (Tudalen 127/8) angen i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru gael gweithdrefn i ddelio â chwynion am swyddogaeth Cynadleddau Amddiffyn Plant.

Mae pob Grŵp Darparu yn gyfrifol am reoli cwynion ynglŷn â swyddogaeth y Cynadleddau Amddiffyn Plant, hyd at Gam 2 o'r gwyn pan fydd Panel Cwynion Cynhadledd Rhyngasiantaethol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn cael ei drefnu.

**Pwrpas**

- Sicrhau bod yna ddealltwriaeth glir o ymateb Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ar ôl derbyn cwynion gan rieni, rhai sy'n rhoi gofal a phlant am swyddogaeth Cynadleddau Amddiffyn Plant.
- Sicrhau bod holl gwynion sy'n ymwneud â chanlyniad a phroses Cynadleddau Amddiffyn Plant yn cael eu derbyn ac yn cael ymateb o fewn yr amserlen a amlinellir yn y weithdrefn hon.
- Sicrhau bod holl gwynion yn cael eu monitro a dysgu gwersi ar gyfer ymarfer.

**Pwy sydd â'r hawl i gwyno?**

- Unrhyw riant, gofalwr neu berson â chyfrifoldeb rhiant
- Unrhyw blentyn a ystyrir sy'n ddigon hen i ddeall, sydd wedi mynychu Cynhadledd Amddiffyn Plant
- Unigolyn sy'n gweithredu ar ran rhiant, gofalwr neu berson â chyfrifoldeb rhiant, neu blentyn, ar yr amod ei fod/bod yn cytuno ac yn deall

**Am beth allwch chi wneud cwyn?**

- Proses y Gynhadledd o safbwynt cydymffurfio â gweithdrefnau
- Y penderfyniad cofrestru, gan gynnwys y categori
- Penderfyniad i beidio cofrestru neu ddadgofrestru

**Nid yw'r weithdrefn yn cynnwys:**

- Cwynion sy'n ymwneud â gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau unigol.
- Cwynion am ymddygiad gweithiwr proffesiynol sy'n mynychu Cynhadledd
- Cwynion am y Cadeirydd
- Cwynion mewn perthynas â chynnwys y cofnodion

Bydd y rhain yn derbyn sylw drwy weithdrefnau cwynion mewnol yr asiantaeth berthnasol.

***DS: Ni all y Panel Cwynion Cynhadledd dynnu enw plentyn oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant; gellir ond gwneud hyn mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant***

Mae taflen wedi'i chynhyrchu yn egluro'r weithdrefn gwyno. Bydd pob rhiant, gofalwr, plant

a phobl ifanc a wahoddir i Gynhadledd Amddiffyn Plant yn derbyn y daflen hon. Mae taflenni ar gael ar wefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru – dolen yma

## Gweithdrefn ar gyfer Cwynion sy'n Ymwneud â Chynadleddau Amddiffyn Plant

| | |
|---|---|
| **1** | **Hysbysu Achwynwyr Posibl** |
| **1.1** | Darperir taflen yn egluro'r Gynhadledd a phroses cwynion i holl aelodau'r teulu a wahoddir i'r Gynhadledd. Bydd hyn yn cynnwys dolen i wefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru lle bydd gwybodaeth am wneud cwyn hefyd ar gael. |
| **1.2** | Ar ddechrau pob Cynhadledd bydd y Cadeirydd yn cyfeirio at y weithdrefn a bydd hyn yn cael ei gofnodi yn y cofnodion. |
| **1.3** | Dylai unrhyw riant neu blentyn sy'n cael ei eithrio o'r Gynhadledd dderbyn gwybodaeth am y broses hon pan fyddant yn cwrdd gyda Chadeirydd y Gynhadledd. |
| **1.4** | Dylid cyfeirio cwynion ysgrifenedig i Gadeirydd y Gynhadledd o fewn 14 diwrnod gwaith o anfon cofnodion y gynhadledd |
| **2** | **Datrys Cwyn – Cam 1 – Datrysiad Anffurfiol** |
| **2.1** | I ddechrau, gellir gwneud cwynion mewn unrhyw ffordd: wyneb yn wyneb; drwy e-bost; dros y ffôn, ac ati. Dylai Cadeirydd y Gynhadledd ymdrechu i ddechrau i ddatrys materion o fewn 10 diwrnod gwaith o'r mater a godwyd drwy;<br>• Gysylltu â'r achwynydd ar unwaith a cheisio datrys y mater dan sylw yn anffurfiol drwy gyfarfod neu siarad â'r achwynydd o fewn 7 diwrnod gwaith. Os nad yw'n ymarferol cwrdd o fewn 7 diwrnod dylid cofnodi'r rhesymau.<br>• Dylai'r Cadeirydd gwblhau Templed Cyfarfod Datrysiad Anffurfiol.<br>• Os bydd y mater yn cael ei ddatrys yna dylai'r cadeirydd a'r achwynydd lofnodi'r templed.<br>• Os na ellir datrys y mater yn anffurfiol yna dylai'r cadeirydd gytuno gyda'r achwynydd pa faterion/meysydd sydd angen mynd ymlaen i gam 2 o'r broses e.e. y Panel Cam 2 Ffurfiol<br>• Dylid llenwi'r Templed Cyfarfod Datrys, ei lofnodi gan y cadeirydd a'r achwynydd |
| **3** | **Cam 2 – Cwyn Ffurfiol** |
| **3.1** | Os bydd yr unigolyn yn dymuno **cwyno'n ffurfiol:**<br>• Dylid gadael i'r achwynydd wybod am ei hawl i gael ei gynrychioli'n gyfreithiol a/neu ei gefnogi gan Eiriolwr yn ystod y cam hwn<br>• Dylai Cadeirydd y Gynhadledd hysbysu'r Uwch Reolwr Diogelu/Amddiffyn Plant i'r awdurdod lleol perthnasol ar unwaith, a hysbysu Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru |
| **3.2** | Cwynion a wnaed gan blentyn:<br>• Bydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn cefnogi hawl plentyn i wneud sylwadau o dan y weithdrefn hon<br>• Er na fwriedir fel rheol anhyblyg bydd unrhyw blentyn 'cymwys yn ôl canllawiau Fraser' dros 14 oed yn cael ei gefnogi i ddechrau cwyn ac ymddangos o flaen Panel rhyngasiantaeth Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru<br>• Bydd yr asesiad 'cymwys yn ôl canllawiau Fraser' yn cael ei wneud gan weithiwr cymdeithasol y plentyn mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd CPC<br>• O dan amgylchiadau o'r fath bydd y plentyn yn cael ei annog i ofyn am |

| | |
|---|---|
| | gefnogaeth Eiriolydd.<br>• Ystyrir nad yw er budd gorau'r plentyn i ddilyn y gwyn yn unigol o dan y gweithdrefnau hyn (mynychu Panel Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru) Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Gadeirydd y Panel Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a hysbysu/cefnogi'r plentyn yn unol â hynny.<br>• Yn dibynnu ar yr amgylchiadau gall Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru benderfynu bod y gwyn dal angen ei hymchwilio a gellir gofyn am adolygiad gan reolwyr o'r materion a godwyd yn y gwyn. |
| **3.3** | Ni ddylid tybio bod y rhieni/rhai sy'n rhoi gofal neu'r plentyn yn angenrheidiol yn rhannu barn yr union achwynydd.<br><br>Lle mae yna achos dylid hefyd rhoi cyfle i nodi eu barn drwy ddatganiad ysgrifenedig/llythyr neu fynychu'r Gynhadledd. |
| **4** | **Ystyriaeth ffurfiol: Panel Cwynion Cynhadledd Rhyngasiantaethol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru** (Panel Cwynion Cynhadledd) |
| **4.1** | Os oes unrhyw amheuon mewn perthynas â'r llwybr gweithdrefnol priodol i ddelio gyda'r gwyn yna dylid gofyn am gyngor cyfreithiol gan yr Ymgynghorydd Cyfreithiol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a'r penderfyniad terfynol a wnaed gan Gadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Statudol perthnasol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| **4.2** | Bydd y Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn ysgrifennu cydnabyddiaeth derbyn y gwyn o fewn 5 diwrnod gwaith ac yn dechrau'r broses o drefnu Panel Cwynion Cynhadledd Rhyngasiantaethol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru i glywed y gwyn. |
| **4.3** | Dylai'r Achwynydd gysylltu â Rheolwr Busnes BDPGC ar ôl derbyn cydnabyddiaeth o'u cwyn; os na wneir cyswllt o fewn yr amserlen 22 diwrnod (nodwyd isod yn 4.4) mae'r achwynydd yn ildio'u hawl i apelio. |
| **4.4** | Bydd Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn trefnu cyfarfod Panel Cwynion Cynhadledd Amlasiantaeth o fewn 22 diwrnod gwaith o lofnodi'r gwyn. |
| **4.5** | I weld manylion am aelodaeth a gweinyddiaeth y Panel Cwynion Cynhadledd Rhyngasiantaethol, gweler Atodiad 1. |
| **4.6** | Bydd yr achwynydd yn cael cynnig gwneud datganiad yn bersonol neu yn ysgrifenedig i Banel Cwynion y Gynhadledd a thystiolaeth sy'n ymwneud â'r gwyn. Dylid anfon ceisiadau ysgrifenedig i Reolwr Busnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y panel i sicrhau bod gan aelodau'r Panel ddigon o amser i ystyried y materion a godwyd. |
| **4.7** | Gall yr achwynydd a/neu Banel Cwynion y Gynhadledd alw tystion.<br><br>Os bydd hyn yn digwydd bydd Rheolwr Busnes/Gweinyddwr Bwrdd yr achos angen cael ei hysbysu i sicrhau trefniadau ymarferol ar gyfer mynychu |
| **4.8** | Bydd Panel Cwynion y Gynhadledd yn pennu:<br>• Pa un a yw'r broses a ddilynir yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru gyfan;<br>• Pa un a yw'r penderfyniad sy'n destun y gwyn yn rhesymol yn sgil dilyn y gweithdrefnau'n iawn. |

| | |
|---|---|
| | • Pa un a yw'r penderfyniad sy'n destun y gwyn yn rhesymol ar sail y wybodaeth oedd ar gael pan gynhaliwyd y Gynhadledd wreiddiol |
| **4.9** | Mae'n rhaid i Gadeirydd Panel Cwynion y Gynhadledd Rhyngasiantaethol ddarparu canlyniad/penderfyniad canfyddiadau'r Panel a chyflwyno hyn i'r achwynydd o fewn 25 diwrnod o lofnodi'r gwyn.<br>Dylid cyflwyno'r penderfyniad yn ysgrifenedig a hefyd anfon at:<br>• Y plentyn, os yw'n briodol i'w hoed a'u dealltwriaeth;<br>• Unrhyw riant neu rywun arall sy'n rhoi gofal;<br>• Unrhyw unigolyn/unigolion eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant;<br>• Aelodau o'r Gynhadledd Amddiffyn Plant perthnasol;<br>• Cadeirydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant yn amodol ar y gwyn |
| **4.10** | Bydd Cadeirydd y Panel Cwynion Cynhadledd Rhyngasiantaethol mewn cysylltiad â'r Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn sicrhau os oes yna unrhyw wersi bod yr Uwch Reolwr, Diogelu perthnasol yn cael ei hysbysu |
| **5** | **Os caiff y Gwyn ei Chadarnhau** |
| **5.1** | Bydd y Panel Cwynion Cynhadledd Rhyngasiantaethol yn gofyn i Gynhadledd Amddiffyn Plant gael ei haildrefnu o fewn 15 diwrnod gwaith i benderfyniad y Panel ac ystyried eu hargymhellion. |
| **5.2** | Dylid enwebu Cadeirydd Cynhadledd gwahanol ar gyfer y Gynhadledd Amddiffyn Plant a aildrefnir |
| **5.3** | Bydd penderfyniad y Gynhadledd wreiddiol yn parhau nes bydd y Gynhadledd a aildrefnir wedi'i chynnal |
| **5.4** | Mewn amgylchiadau annhebygol lle mae Cynhadledd Amddiffyn Plant a aildrefnwyd yn methu cytuno neu weithredu ar argymhellion / penderfyniad y panel, bydd y mater yn cael ei gyfeirio i Gadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ar gyfer sylw ar unwaith |
| **6** | **Os na chaiff y Gwyn ei Chadarnhau** |
| **6.1** | Ysgrifennir at bawb perthnasol am unrhyw benderfyniadau neu argymhellion a wnaed gan Gadeirydd Panel Cwynion Cynhadledd Rhyngasiantaethol yn unol â 4.12 |
| **7** | **Cwynion heb eu datrys** |
| **7.1** | Os bydd yr achwynydd yn parhau'n anfodlon, mae'n rhaid i'r achwynydd gynnwys y meysydd maent yn parhau'n anfodlon â nhw a'r penderfyniad y dymunent yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn penderfyniad y Panel. |
| **7.2** | Bydd Rheolwr Busnes a Chadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn cwrdd ac yn ystyried gweddill y materion o fewn y gwyn ac yn adolygu'r argymhellion ac yn ymateb i'r achwynydd. |
| **7.3** | Os nad yw'r gwyn yn cael ei chadarnhau nid oes unrhyw gyfle i'r achwynydd apelio o fewn gweithdrefnau'r Bwrdd. |
| **8** | **Adroddiadau a Monitro** |

| | |
|---|---|
| **8.1** | Bydd Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn sicrhau y darperir adroddiadau i Fwrdd Gweithredol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru bob chwarter ynglŷn ag unrhyw gwynion a wnaed, canlyniadau a chrynodeb o faterion a drafodwyd. |

| | **Y Panel Rhyngasiantaethol ar gyfer Cwynion Cynadleddau Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru** |
|---|---|
| **1.** | Dylai'r Panel gynnwys o leiaf tri uwch gynrychiolydd asiantaethau sy'n aelodau o'r Bwrdd Diogelu Plant, un ohonynt yn Gadeirydd. Gan fod natur cyfraniad asiantaeth yn amrywio bydd angen penderfynu ar aelodaeth fesul achos. |
| **2.** | Ni fydd y Panel yn cynnwys unrhyw un sy'n cyfrannu'n uniongyrchol neu gyfrifoldeb rheolwr atebol ar gyfer yr achos a glywir |
| **3.** | Bydd y Panel yn derbyn cefnogaeth gan Ymgynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd a'r Cydlynydd Amddiffyn Plant (heb gyfrannu at yr achos yn flaenorol) fydd yn darparu cyngor gwaith cymdeithasol arbenigol, fel bo'r angen |
| **4.** | Dylai o leiaf dau aelod o'r Panel fod yn ddigon uchel a phrofiadol ym maes amddiffyn plant a bod yn gyfarwydd iawn â phrosesau Cynhadledd Amddiffyn Plant. Dylai'r Cadeirydd gael profiad sylweddol o gadeirio cyfarfodydd. |
| **5.** | Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru neu Is Gadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn absenoldeb Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol am aelodaeth y panel gan gynnwys penodi Cadeirydd y Panel. |
| **6.** | Bydd y Panel yn derbyn cefnogaeth weinyddol gan Weinyddwr y Bwrdd e.e. trefnu dyddiad, lleoliad, dosbarthu adroddiadau perthnasol ymlaen llaw a chofnodion |
| **7.** | Dylai'r lleoliad a ddewisir fod ar adeg gyfleus ac mor lleol a 'niwtral' â phosibl i'r achwynydd e.e. heb gysylltiad amlwg â lleoliadau CPC blaenorol e.e. Canolfan Hamdden lleol, Canolfannau Teuluoedd, lleoliad swyddfeydd sefydliadau/asiantaethau gwirfoddol sydd heb gyfrannu'n flaenorol. |
| **8.** | Lle bo'n briodol bydd angen ystyried trefniadau gofal plant |
| **9.** | Wrth gadarnhau'r trefniadau ymarferol hyn, Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru fydd y prif gyswllt cyfathrebu gyda'r achwynydd. Anfonir cadarnhad terfynol o'r trefniadau yn ysgrifenedig drwy ddosbarthiad a gofnodwyd i'r achwynydd yn enw Cadeirydd, Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru gan Weinyddwr y Panel. |
| **10.** | Dylid darparu adroddiadau i Weinyddwr y Bwrdd 10 diwrnod gwaith cyn trefnu'r panel a dylai gynnwys:<br>• Cofnodion Cynhadledd Amddiffyn Plant Blaenorol<br>• Adroddiadau Gweithiwr Cymdeithasol ac asiantaethau eraill i Gynhadledd Amddiffyn Plant blaenorol<br>• Asesiad Craidd a Chynllun Amddiffyn Plant os cwblhawyd<br>• Unrhyw adroddiadau seicolegol/seiciatrig/asesiad risg arbenigol<br>• Diweddariad o ddymuniadau a theimladau'r plentyn a dealltwriaeth o sefyllfa bresennol a ddarparwyd gan Weithiwr Cymdeithasol y plentyn. |
| **11.** | Bydd holl Adroddiadau yn cael eu dosbarthu gan Weinyddwr y Panel i'r:<br>• Achwynydd drwy ddosbarthiad a gofnodwyd oni bai yr hysbyswyd yn wahanol gan Gadeirydd Cynhadledd Amddiffyn Plant.<br>• Aelodau'r Panel yn electronig o dan gyfrinair |

| | |
|---|---|
| | • Ymgynghorydd Cyfreithiol Bwrdd<br>• Cydlynydd Amddiffyn Plant Perthnasol<br>• Uwch Reolwr perthnasol Amddiffyn Plant o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol |

## Rhaglen/Trefn Busnes Panel

Cyn dechrau, bydd Cadeirydd y Panel yn cyfarfod yn anffurfiol gyda'r achwynydd i egluro'r broses, pwysleisio ei h/annibyniaeth a dymuno am degwch, cadarnhau bod yr achwynydd wedi cael mynediad ac wedi darllen yr adroddiadau perthnasol, disgwyliadau ymddygiad, beth mae'r panel yn gallu a ddim yn gallu ei wneud, cadarnhau trefn busnes [gan gynnwys amserlen ar gyfer rhoi gwybod am argymhellion/penderfyniadau] a rhoi cyfle i'r achwynydd ofyn unrhyw gwestiynau.

1) Bydd Cadeirydd y Panel yn dechrau gweithdrefnau ac yn sicrhau bod aelodau'r panel yn ymwybodol o drefn busnes [gweler Atodiad 1] ac wedi darllen/yn gyfarwydd ag adroddiadau perthnasol a ddarparwyd.
2) Bydd amgylchiadau'r achos ac ymdrechion a wnaed i ddatrys y materion yn cael eu hamlinellu gan Gadeirydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant gwreiddiol
3) Bydd yr Achwynydd/Panel/Tystion yn cyflwyno sylwadau
4) Efallai y bydd angen ymgynghori â'r Cydlynydd Amddiffyn Plant
5) Yna bydd y Panel yn penderfynu fel a ganlyn:
    - Pa un a yw'r broses a ddilynir yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru gyfan;
    - Pa un a yw'r penderfyniad sy'n destun y gwyn yn rhesymol yn sgil dilyn y gweithdrefnau'n iawn.
    - A yw'r penderfyniad sy'n destun y gwyn yn rhesymol ar sail yr wybodaeth oedd ar gael pan gynhaliwyd y gynhadledd wreiddiol.

Bydd y Cadeirydd ac aelodau'r Panel yn trafod y dystiolaeth a glywyd ac yn cyrraedd:

1. penderfyniad ac argymhellion
2. caiff argymhellion eu cofnodi

**Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru**
**Templed Cyfarfod Datrysiad Anffurfiol Cam 1**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod** | |
| **Lleoliad** | |
| **Yn bresennol** | |
| | |
| **Meysydd Cwyn a Drafodwyd** | |
| | |
| **Datrysiadau a Awgrymwyd** | **Datrysiad a Gytunwyd / Na Gytunwyd** |
| | |
| **Angen Camau Pellach – Oes/Nac oes** | |
| **<u>Materion i dderbyn sylw drwy Banel Cam 2 Ffurfiol</u>**<br>• Proses y gynhadledd o safbwynt cydymffurfio â gweithdrefnau<br>• Y penderfyniad cofrestru, gan gynnwys y categori<br>• Penderfyniad i gofrestru neu i beidio dadgofrestru<br>Nodwch pa rai o'r agweddau uchod o'r broses cynhadledd achos y derbyniwyd cwyn amdanynt | |
| **Llofnod Achwynydd** | **Llofnod Cadeirydd** |
| | |
| **Dyddiad** | **Dyddiad** |

***ATODIAD 4***

## *Siart Llif*

Cynhadledd Achos

↓

Sylwadau a wnaed ar ôl y Gynhadledd ond dim mwy nag 14 diwrnod ar ôl derbyn y cofnodion

↓

Cam 1 Anffurfiol - 10 D

Cyfarfod Datrysiad Anffurfiol (C)

↓

Cwblhawyd Ffurflen Datrysiad Anffurfiol

Datrysiad → NFA

Heb ddatrysiad → Hysbysu Uwch Reolwr, Rheolwr Busnes Diogelu a Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

Cam 2 Ffurfiol – 15 Diwrnod

Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru i gydnabod derbyn Cais i symud i Gam 2 o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn Ffurflen Datrysiad Anffurfiol

↓

Rheolwr Busnes BDPGC yn cysylltu ag Aelodau'r Panel ac yn cytuno ar ddyddiad ar gyfer y Panel

↓

Rheolwr Busnes BDPGC i hysbysu bawb am ddyddiad y Panel a gofynion ar gyfer papurau, tyst ac ati

↓

Dylai ceisiadau ysgrifenedig gael eu cyflwyno i Reolwr Busnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru 5 diwrnod gwaith cyn y Panel

↓

Gwrandawiad Panel

↓

Achwynydd wedi'i hysbysu am ganlyniad Panel yn ysgrifenedig

Mae'r Achwynydd yn ildio eu hawl i apelio, os nad ydynt yn cysylltu â Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC) ar ôl derbyn cydnabyddiaeth o'u cwyn.

Proses Gwyno – 25 Diwrnod